FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

# KEVIN HAYWARD

## Hyfforddai Rigio



**Mae gŵr 54 oed o Gasnewydd wedi ennill profiad gwerthfawr yn y diwydiant ffilm a llwyddo i ddefnyddio sgiliau trosglwyddo o'i 30 mlynedd o yrfa mewn peirianneg, diolch i raglen Ffilm Cymru sy'n mynd ati i agor y diwydiant ffilm i bawb.**

Derbyniodd Kevin Hayward leoliad gyda'r cwmni lleol, Extreme Rigging, sy'n gwneud gwaith rigio a styntiau, diolch i raglen Troed yn y Drws Ffilm Cymru. Nod y cynllun yw hyrwyddo a chynnal diwydiant ffilm gref I Gymru drwy ddarparu cyllid, hyfforddiant a llwybrau gyrfa i'r dyfodol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gyrfa ym myd ffilm.

Drwy gyflogaeth Kevin gyda'r cwmni o Gily- coed, a weithiodd ar gynhyrchiad *Willow* ar gyfer Disney+, cafodd y cyn-beiriannydd meddalwedd gyfle i ddefnyddio sgiliau trosglwyddo o'i yrfa flaenorol er mwyn cael profiad hanfodol, gan fynd ag ef gam yn nes at ddilyn ei angerdd am ffilmiau.

**"Fe wnaeth gweithio gyda Troed yn y Drws ddangos i mi cymaint o sgiliau trosglwyddo oedd gen i, a rhoddodd y mynediad roeddwn i wastad wedi bod yn chwilio amdano,"** meddai.

Ers gwanwyn 2022, mae 300 o leoedd hyfforddi a chyflogaeth wedi'u cynnig yng Nghasnewydd yn y sector sgrin drwy Troed yn y Drws, diolch i gydweithrediad rhwng Ffilm Cymru Wales a Chyngor Dinas Casnewydd sydd wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU. Mae adnoddau a chymorth i helpu gyda phethau fel gofal plant, trafnidiaeth ac offer ar gael i helpu i ehangu mynediad i'r grŵp mwyaf amrywiol o gyfranogwyr ag sy'n bosib.

FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

Roedd Kevin wastad wedi bod eisiau gweithio ym myd ffilm ers oedd yn ifanc ond ni wyddai ble i ddechrau arni. Meddai**: "Roeddwn i wastad yn teimlo ei fod yn un o'r diwydiannau yna lle mae'n rhaid I chi adnabod rhywun sy'n adnabod rhywun; doedd byth yn teimlo fel ei fod o fewn cyrraedd i mi fel plentyn yn tyfu fyny ar stad gyngor yn yr wythdegau."**

Gan roi ei angerdd o'r neilltu, aeth Kevin ar drywydd gyrfa 30 mlynedd mewn peirianneg, a aeth ag ef i Arizona, yr Unol Daleithiau, lle bu'n ysgrifennu meddalwedd i brofi peiriannau jet.

Dechreuodd Kevin ymwneud â Foot in The Door drwy gynllun Ailgychwyn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Wrth sôn am ei brofiad, dywedodd Kevin: **"Roedd yn teimlo'n berffaith i mi - fel dyn hŷn gyda gyrfa mewn diwydiant hollol wahanol, doeddwn i ddim yn hyderus y byddwn i byth yn gallu cael fy nhroed yn y diwydiant ac ymhlith y bobl iawn, ac roeddwn i'n poeni y gallwn i fod yn rhy hwyr, ond dangosodd Troed yn y Drws i mi nad yw byth yn rhyw hwyr i gymryd y cam."**

Ar ôl sesiwn gyflwyno Kevin, cwblhaodd gwrs Swyddog Tân, a gynhaliwyd gan Screen Alliance Wales, a chwrs Cymorth Cyntaf gyda Troed yn y Drws er mwyn ehangu ei sgiliau ymhellach, yn ogystal â hyfforddiant arferion set cyn cychwyn ar ei leoliad. Oherwydd ei brofiad gyda pheirianneg, neidiodd Kevin ar y cyfle I fynd ar leoliad gydag Extreme Rigging fel drafftiwr AutoCAD.

**"Roedd yn wych, oherwydd roeddwn i'n gallu cymhwyso fy ngwybodaeth o fy ngyrfa mewn peirianneg meddalwedd mewn diwydiant roeddwn i wastad wedi breuddwydio am fod yn rhan ohono. Roedd grŵp ohonon ni'n gweithio gyda'n gilydd, o oedran a chefndir tebyg, o ddiwydiannau hollol wahanol, ond i gyd yn dwlu ar ffilmiau. Byddem i gyd yn gweithio gyda'n gilydd, yn gwrando ar yr un gerddoriaeth ac yn trafod ffilmiau. Er cymaint roeddwn i'n caru'r swydd, datblygu'r berthynas yna gyda phobl o'r un anian oedd un o'r pethau gorau i ddod ohono. Dwi'n meddwl fy mod i wedi gwneud ffrindiau oes yno,"** meddai Kevin.

Wrth i Kevin barhau i ddilyn ei yrfa ym myd ffilm, mae'n ddiolchgar am y profiad a'r hygyrchedd mae Troed yn y Drws wedi'u rhoi iddo, pethau nad yw'n credu y byddai wedi'u cael fel arall.

Wrth siarad am ei brofiad gyda Troed yn y Drws, meddai Kevin: **"Alla i ddim esbonio pa mor dragwyddol ddiolchgar ydw i o fod wedi cael y cyfleoedd yma gyda Troed yn y Drws, o'r profiadau rwy wedi eu cael i'r bobl hynod gefnogol rwy wedi cwrdd â nhw. Gall y diwydiant ffilm fod yn anodd i gael i mewn iddo os nad ydych chi'n gwybod ble i edrych, ac os na allwch chi fanteisio ar y cyfleoedd cywir o oedran ifanc, fel cyrsiau prifysgol a chyrsiau arbenigol yn y cyfryngau.**

**"Doedd y rheiny ddim ar gael i mi pan oeddwn i'n blentyn, ond mae Troed yn y Drws wedi profi i mi nad yw byth yn rhy hwyr i chi fynd ar drywydd rhywbeth rydych chi'n dwlu arno. Mater o lwc yw llawer o gyfleoedd mewn bywyd, a mater o fod yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae Troed yn y Drws yn rhoi'r lle iawn i chi, a dyma eich cyfle chi I fanteisio ar yr amser iawn."**

**"Mae Kevin yn enghraifft berffaith o sut mae Troed yn y Drws yn gallu rhoi cyfleoedd i gael i mewn i'r sector sgrin yng Nghymru, ac nad yw byth yn rhy hwyr i fynd ar drywydd rhywbeth y mae gennych chi angerdd yn ei gylch.**

**"Rydyn ni'n gweld mor bwysig yw sgiliau trosglwyddadwy fel rhai Kevin, ac rydyn ni'n gwybod cymaint mae'r rhain yn cael eu gwerthfawrogi ar setiau ffilm ac yn y diwydiant yn ehangach. Rydym ni mor falch ein bod wedi gallu helpu Kevin i gael y profiad hanfodol sydd ei angen arno er mwyn dechrau datblygu ei yrfa."**



**Faye Hannah**
Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant
Ffilm Cymru Wales

**www.footinthedoorwales.com**

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

ffilm CYMRU WALES

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD